# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17eg Mehefin 2013 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen [cyrhaeddodd 10.40] | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro yr Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon, R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |

Mynychodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y cyfarfod i drosglwyddo'r awenau yn ffurfiol i Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

1 PENODI CADEIRYDD 2013/14

1.1 Gofynnodd y Cynghorydd A M Jones am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn ddinesig 2013/14.

1.2 Cynigiodd y Cynghorydd B Dunn y Cynghorydd M Ll Davies ac eiliwyd hyn gan y Cynghorwyr W O Thomas ac A Jones. Ni gynigiwyd unrhyw enwebiad arall. Rhoddodd y Cynghorydd M Ll Davies ddisgrifiad byr o'i gefndir cyn y bleidlais.

1.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y flwyddyn ddinesig 2013/14.**

Diolchodd y Cynghorydd M Ll Davies i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u hyder ynddo ac aeth ymlaen i gadeirio'r cyfarfod.

2 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2013/14

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau am swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod am y flwyddyn ddinesig 2013/14.

2.2 Cynigiodd y Cynghorydd A Tansley y Cynghorydd P R Lewis ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd R Parry. Rhoddodd y Cynghorydd P R Lewis ddisgrifiad byr o'i gefndir cyn y bleidlais.

2.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter R Lewis yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn ddinesig 2013/14.**

Cyn gadael y cyfarfod, diolchodd y Cynghorydd A M Jones i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ei holl waith ac yn enwedig yn ystod y llifogydd yn 2012. Diolchodd hefyd i'r aelodau, swyddogion a'r undebau am eu gwaith caled. Cynigiodd y Cynghorydd B Dunn air o ddiolch i'r Cynghorydd A M Jones am ei waith tra'n Gadeirydd yr Awdurdod.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr un eitem wedi ei chyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

4 COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL DIWETHAF

4.1 Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2012 i'w cymeradwyo.

4.2 Nid oedd yr un mater yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

4.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

5 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gadarnhau penodiadau aelodau'r Awdurdod a chyfansoddiad aelodaeth yr Awdurdod llawn ar gyfer 2013/14.

5.2 Nodwyd fod y Cynghorydd Jeffrey M Evans yn aelod annibynnol nid Llafur fel a nodwyd yn yr adroddiad.

5.3 **PENDERFYNWYD nodi aelodaeth yr Awdurdod am 2013/14.**

6 PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

6.1 Diben yr adroddiad oedd gwahodd yr Awdurdod i benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) peidio â gweithredu'r egwyddor cydbwysedd gwleidyddol i'r Pwyllgorau;**
**(ii) aelodaeth y pwyllgorau fel a ganlyn:**

**Panel Gweithredol**

| | |
|---|---|
| M Ll Davies | Sir Ddinbych |
| P R Lewis | Conwy |
| L W Davies | Ynys Môn |
| J M Evans | Ynys Môn |
| A Tansley | Conwy |
| R E Parry | Conwy |
| R Davies | Sir Ddinbych |
| P W Owen | Sir Ddinbych |
| B Dunn | Sir y Fflint |
| H McGuill | Sir y Fflint |
| W R Owen | Gwynedd |
| W T Owen | Gwynedd |
| A Evans | Wrecsam |
| P Pemberton | Wrecsam |

**Pwyllgor Archwilio**

| | |
|---|---|
| J G Evans | Ynys Môn |
| O A Jones | Wrecsam |
| G Lowe | Wrecsam |
| J R Skelland | Wrecsam |
| A I Dunbar | Sir y Fflint |
| W P Shotton | Sir y Fflint |
| M Reece | Sir y Fflint |
| W O Thomas | Sir y Fflint |
| D A MacRae | Conwy |
| D J Miles | Conwy |
| P Penlington | Sir Ddinbych |
| L A W Jones | Gwynedd |
| C Hughes | Gwynedd |
| J B Hughes | Gwynedd |

**(iii) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol fel nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol | Cadeirydd |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd |
| Panel Gwasanaethau Tân WLGA | Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân â'r Gweinidog Tân ac Achub | Cadeirydd |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Cadeirydd |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Cadeirydd |
| Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

7 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2013/14

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau am ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd yn 2013/14.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r dyddiadau fel a ganlyn:**

**Cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Dydd Llun 16 Medi 2013 - Gwynedd
Dydd Llun 16 Rhagfyr 2013 – Sir y Fflint
Dydd Llun 17 Mawrth 2014 – Ynys Môn
Dydd Llun 16 Mehefin 2014 – Conwy

**Cyfarfodydd Panel Gweithredol i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub am 2pm**

Dydd Llun 15 Gorffennaf 2013
Dydd Llun 28 Hydref 2013
Dydd Llun 3 Chwefror 2014
Dydd Llun 12 Mai 2014

**Cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub am 2pm**

Dydd Llun 23 Medi 2013
Dydd Llun 27 Ionawr 2014
Dydd Llun 2 Mehefin 2014